Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

# Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau

# Transforming Education, Transforming Lives

- ECAD6051
- Astudiaethau Proffesiynol ac Addysgeg: Arwain y Dysgu:
- Beth, sut a pham ydw i'n addysgu?
- Ieithoedd, Llafar a Chyfathrebu
- Sesiwn 3
- Medi 2025

*Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau*
*Transforming Education, Transforming Lives*

www.uwtsd.ac.uk

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

APLP
PDPA
Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

# Trosolwg o'r gyfres o ddarlithoedd



Rhan 1
- Llafar
- Syniadau

Rhan 2
- Darllen
- Syniadau

Rhan 3
- Ysgrifennu
- Syniadau

Trawsnewid Addysg,
Trawsnewid Bywydau

Transforming Education,
Transforming Lives

www.uwtsd.ac.uk

# Nod y ddarlith



- codi eich ymwybyddiaeth am adnoodau i gefnogi ein dysgwyr;
- ystyried pwysigrwydd modelu yn y dosbarth;
- ystyried **<u>sut</u>** i ddefnyddio llenyddiaeth wrth ddatblygu sgiliau ysgrifennu;
- ystyried **<u>sut</u>** i ddatblygu sgiliau ysgrifennu y disgyblion.

# Cwricwlwm i Gymru

## Mae'r adran ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu o'r Cwricwlwm 20 22 wedi ei rannu i bedwar

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

| 1 | 2 | 3 | 4 |
|---|---|---|---|
| **Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gil ydd.** | **Mae deall ieithoe dd yn allweddol i ddeall y byd o'n h amgylch.** | **Mae mynegi ein h unain drwy ieitho edd yn allweddol i gyfathrebu** | **Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychym yg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.** |

Dylid ystyried yn holistaidd y pedwar datganiad sy'n nodi'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn. Golyga hyn y dylid archwilio gwahanol ieithoedd mewn perthynas â'i gilydd, yn ogystal â sgiliau gwrando, siarad, darllen ac **ysgrifennu**. Golyga hyn hefyd y dylid ystyried dysgu am

a thrwy lenyddiaeth fel rhywbeth sy'n cyfrannu at holl agweddau dysgu am ieithoedd. Mae'r datganiadau yn cefnogi a chadarnhau'i gilydd. Gyda'i gilydd maen nhw'n cyfrannu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm.


- Llywodraeth Cymru (2020) Canllawniau Cwricwlwm i Gymru. Ar gael ar: https://hwb.gov.wales/api/storage/e5aad94a-d71a-471d-a869-6fa8bde9837e/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.docx Gymru

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

APLP PDPA
Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

# Datblygu sgiliau ysgrifennu







Trawsnewid Addysg,
Trawsnewid Bywydau

Transforming Education,
Transforming Lives

www.uwtsd.ac.uk

Er mwyn gwneud cynnydd, mae angen dulliau addysgu da ar ddysgwyr sy'n cynnwys modelu ysgrifennu, cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu eu sgiliau, ac arfer asesu effeithiol sy'n caniatáu iddyn nhw ddeall y ffyrdd gorau o wella eu gwaith. Yn y pen draw, bydd yr agweddau mecanyddol ar ysgrifennu, megis sillafu ac atalnodi, yn dod yn ail natur i awdur effeithiol, a bydd yn gallu rhoi ei holl sylw i arbrofi gydag iaith a ffurf er mwyn denu sylw ac addysgu ei ddarllenwr.



# Y cam cyntaf …

**Datblygu sgiliau echddygol**
(fine motor skills)**…**











Un elfen bwysig o ddatblygu llythrennedd yw'r cyfleoedd gaiff plant ifainc i farcio, hynny yw, i greu marc ar bapur, mewn tywod, gyda phaent neu, fel babi, gyda'i fys mewn bwyd.

(Siencyn a Richards, 2010, t.167)

# Gwneud marciau











- gwneud marciau
- sgriblo di-eglurhad
- sgriblo ag eglurhad
- ymgais i ysgrifennu llythrennau
- gweithio o’r chwith i’r dde

# Dechrau ysgrifennu







**Cam cynnydd 1**

Rwy'n gallu cyfathrebu gan wneud marciau, darlunio symbolau neu ysgrifennu llythrennau a geiriau mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Rwy'n dechrau ffurfio llythrennau'n gywir gan afael yn briodol yn yr offer ysgrifennu.

Rwy'n dechrau ysgrifennu gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd.

Rwy'n gallu ysgrifennu geiriau ac ymadroddion gan ddefnyddio gwybodaeth am lythrennau a'r seiniau maen nhw'n eu cynrychioli.

# Dechrau ysgrifennu …





**ysgrifennu gan ddefnyddio model**

**llunio rhestrau**

## Cam cynnydd 1

Rwy'n gallu cyfathrebu gan wneud marciau, darlunio symbolau neu ysgrifennu llythrennau a geiriau mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Rwy'n dechrau ffurfio llythrennau'n gywir gan afael yn briodol yn yr offer ysgrifennu.

Rwy'n dechrau ysgrifennu gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd.

Rwy'n gallu ysgrifennu geiriau ac ymadroddion gan ddefnyddio gwybodaeth am lythrennau a'r seiniau maen nhw'n eu cynrychioli.

# Achub ar bob cyfle …

- Rhaid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu mewn ffordd naturiol, e.e. cymryd neges ffôn / cymryd archeb mewn caffi, a.y.y.b.

- Cofiwch ei bod hi'n bwysig i weld print ym mhob rhan o'r ystafell – yn y corneli chwarae a.y.y.b.



# Y broses ysgrifennu …



- Gwrando
- Adnabod llythrennau
- Geiriau
- Brawddegau
- Ysgrifennu estynedig



Dyma Aled Afal. Mae Aled Afal yn wyrdd.

2






Aled Afal

# Tasg

Ysgrifennwch y brawddegau isod gan ddilyn cynllun Aled Afal.

mae hi'n braf heddiw. roedd hi'n stormus ddoe.
yfory dwi'n gobeithio na fydd hi'n bwrw glaw.

# Dechrau ysgrifennu …

- ymdrechion i ysgrifennu brawddegau syml
- ysgrifennu brawddegau syml gan ddefnyddio llyfrau geiriau / geiriaduron
- ysgrifennu brawddegau syml gyda phriflythrennau, atalnod llawn, gofynodau





Llythrennau

↓

Geiriau

↓

Brawddegau

↓

Ysgrifennu estynedig



Dyma Wendi Wlanog.

Mae hi'n mynd am dro.

# Cynhesu ar gyfer ysgrifennu …

mae

melyn

coch

glas

du

**Pa un sy'n wahanol?**

# Cynhesu ar gyfer ysgrifennu …

Rydw i'n ________________________________.

Gorffennwch y frawddeg.

# Cynhesu ar gyfer ysgrifennu …

Ble ______________________?

Gorffennwch y frawddeg.

# Dechrau ysgrifennu.



# Defnyddio lluniau i ddatblygu iaith

Beth ...?

Pa liw ...?

Sawl ...?

Faint o ...?




Oes ...?

Ydy ...?

Pam ...?

Sut ...?

# Defnyddio lluniau i ddatblygu iaith yn y dysgu sylfaen

Beth ...?

Pa liw ...?

Sawl ...?

Faint o ...?



Oes ...?

Ydy ...?

Pam ...?

Sut ...?

# Fframwaith Llythrennedd - Ysgrifennu

## Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.

| Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnydd 3 |
|---|---|---|
| | cyfnewid syniadau a gwybodaeth. | |
| Rwy'n gallu cyfathrebu gan wneud marciau, darlunio symbolau neu ysgrifennu llythrennau a geiriau mewn amrywiaeth o gyd-destunau.<br><br>Rwy'n dechrau ffurfio llythrennau'n gywir gan afael yn briodol yn yr offer ysgrifennu. | Rwy'n gallu ysgrifennu'n ddarllenadwy. | Rwy'n gallu ysgrifennu'n ddarllenadwy a rhugl. |
| Rwy'n dechrau ysgrifennu gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd.<br><br>Rwy'n gallu ysgrifennu geiriau ac ymadroddion gan ddefnyddio gwybodaeth am lythrennau a'r seiniau maen nhw'n eu cynrychioli. | Rwy'n gallu sillafu geiriau afreolaidd cyffredin yn gywir.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am sain a phatrwm llythrennau yn gywir yn fy sillafu.<br><br>Rwy'n gallu rhoi ymgais ar sillafu geiriau anoddach mewn ffordd resymol gan ddefnyddio ystod o strategaethau. | |

# Ysgrifennu testun …

- rhestr
- stori
- rhagfynegi
- disgrifiad
- e-bost
- ailadrodd
- llythyr
- gwybodaeth / ffeithiol
- cyfarwyddiadau
- perswâd
- gwahoddiad

# Y broses o ysgrifennu testun …

**Darllen** model

↓

**Trafod a meddwl** am y cynnwys

↓

**Cynllunio**

↓

**Ysgrifennu** ar y cyd

↓

**Ysgrifennu** annibynnol




# Modelu …

O SAFON ARBENNIG?




# Modelu …

SUT?




# Modelu …

PAM?

# Modelu …

I BWY?




GWAITH PLANT!!!

**Darllen** model

↓

**Trafod a meddwl** am y cynnwys

↓

**Cynllunio**

↓

**Ysgrifennu** ar y cyd

↓

**Ysgrifennu** annibynnol




# Dwyn i gof

| Ffurf | Dwyn i gof |
|---|---|
| Pwrpas | Dweud wrth y darllenydd am rywbeth sydd wedi digwydd, fel arfer i chi. |
| Beth yw dwyn i gof? | Pan rydym yn dwyn i gof, rydym yn disgrifio rhywbeth sydd wedi digwydd, felly mae'n rhaid: |

- defnyddio amser gorffennol y ferf neu ffurfiau 'roedd'
- dweud beth sydd wedi digwydd yn drefnus – dechrau ar y dechrau a gorffen ar y diwedd
- ateb y cwestiynau:
  - Beth?
  - Ble?
  - Pryd?
  - Pwy?
  - Pam?
  - Sut?
- defnyddio geiriau ac ymadroddion fel **yna, wedyn, yn y pen draw, erbyn hynny, nesaf** i ddangos bod amser wedi mynd heibio ac i symud yr hanes ymlaen.

**Iaith**

Fel arfer, rydym yn defnyddio llawer o'r person cyntaf a'r trydydd person.

Dyma rai enghreifftiau i'ch helpu chi:

| **Unigol** | **Lluosog** |
|---|---|
| Es i ... | Aethon ni ... |
| Gwelais ... | Gwelon ni ... |
| Sylwais ar ... | Sylwon ni ... |
| Gwelodd e ... | Gwelon nhw ... |
| Daeth hi ... | Daethon nhw ... |
| Penderfynodd o ... | Penderfynon nhw ... |
| Roeddwn i ... | Roedden ni ... |
| Roedd ... | |

**Tasg**:

Ysgrifennwch meini prawf llwyddiant ar gyfer ysgrifennu darn 'dwyn i gof'.

# Llunio meini prawf llwyddiant …

‘A teacher’s planning should provide opportunities for both learner and teacher to obtain and use information about progress towards learning goals. It also has to be flexible to respond to initial and emerging ideas and skills. Planning should include strategies to ensure that learners understand the goals they are persuing and the criteria that will be applied in assessing their work. How learners will receive feedback, how they will take part in assessing their learning and how they will be helped to make further progress should also be planned.’

(Assessment Reform Group, 2002)



# Pan yn llunio meini prawf llwyddiant …

- Mae angen i'r disgyblion wybod:
  1. ble maen nhw o ran eu eu dealltwriaeth o'u dysgu;
  2. beth sydd angen iddyn nhw wneud er mwyn datblygu;
  3. sut mae datblygu;

- Mae angen i'r athro wybod:
  1. ble mae'r disgyblion o ran eu dealltwriaeth o'u dysgu;
  2. beth sydd angen gwneud / addysgu er mwyn caniatâu datblygiad pellach;

- Pan mae asesu yn cefnogi'r uchod, mae'n asesu ffurfiannol.






**Dydd Sadwrn diwethaf**

pwy?
pryd?
ble?
symud ymlaen
amser gorffennol
beth?
sut?
pam?

Dydd Sadwrn diwethaf, aeth Dad, Marc a fi i arddangosfa gyda'r Frigâd Dân ym Mhen-y-gaer, ond chyrhaeddon ni ddim! Roedden ni'n gyrru ar hyd ffordd wledig yng Nghwm Saron pan glywon ni seiren yn y pellter. Y funud nesaf, pasiodd car yr heddlu ni ar frys gwyllt.

Roedd yn amlwg bod rhywbeth mawr wedi digwydd. Roedd y ffordd yn droellog iawn, felly gyrrodd Dad ymlaen yn araf ac yn ofalus. Cyn bo hir, roedden ni'n gallu gweld bod y ffordd ar gau o'n blaenau. Doedden ni ddim yn gallu symud!

Eisteddon ni yn y car am ddwy awr heb symud modfedd. Am ddiflas!

O'r diwedd, agorodd yr heddlu'r ffordd ac roedd Dad yn gallu gyrru ymlaen. Pan aethon ni rownd y gornel nesaf, gwelon ni beth oedd wedi digwydd. Roedd car wyneb i waered yn y cae! Roedd e wedi mynd yn syth drwy'r clawdd achos roedd e'n gyrru'n rhy gyflym.

Erbyn hyn, roedd hi'n rhy hwyr i ni fynd i'r arddangosfa, ond doedd dim ots gan Marc a fi, achos aeth Dad â ni i'r sinema yn lle hynny.

**Ysgrifennwch ddarn sy'n dwyn i gof ryw brofiad.**
**Cofiwch y meini prawf llwyddiant.**

- ☆ defnyddio amser gorffennol y ferf
- ☆ dweud beth sydd wedi digwydd yn drefnus – dechrau ar y dechrau a gorffen ar y diwedd
- ☆ ateb cwestiynau fel Beth? Ble? Pryd? Pwy? Pam? Sut?
- ☆ defnyddio geiriau ac ymadroddion i ddangos bod amser wedi mynd heibio.




# Cynnwys



| Ffurf | Tudalen |
|---|---|
| Stori | 2-3 |
| Stori | 4-5 |
| Dyddiadur | 6-7 |
| Blog | 8-9 |
| E-bost | 10-11 |
| Llythyr | 12-13 |
| Dwyn i gof | 14-15 |
| Adroddiad | 16-17 |
| Agenda | 18-19 |
| Araith | 20-21 |
| Poster | 22-23 |
| Portread | 24-25 |
| Mynegi barn | 26-27 |
| Adolygiad | 28-29 |
| Sgript | 30-31 |
| Deialog mewn stori | 32-33 |
| Rheolau | 34-35 |
| Cyfarwyddiadau | 36-37 |
| Trydar | 38-39 |

# Creu meini prawf

| Meini Prawf Llwyddiant Dwyn i Gof | | |
|---|---|---|
| | Hunan Asesu | Asesiad Athro |
| Defnyddio amser gorffennol y ferf | | |
| Dweud beth sydd wedi digwydd mewn trefn | | |
| Ateb cwestiynau fel: Beth? Ble? Pryd? Pwy? Pam? Sut? | | |
| Defnyddio geiriau ac ymadroddion i ddangos bod amser wedi mynd heibio | | |

Pa fath o destun sydd yma?

Beth ydy nodweddion y testun?

Beth ydy pwrpas y testun?

Pwy ydy'r gynulleidfa?

## Dydd Sadwrn diwethaf

pwy?

pryd? → Dydd Sadwrn diwethaf, aeth Dad, Marc a fi i arddangosfa gyda'r Frigâd Dân ym Mhen-y-gaer, ond chyrhaeddon ni ddim! Roedden ni'n gyrru ar hyd ffordd wledig yng Nghwm Saron pan glywon ni seiren yn y pellter. Y funud nesaf, pasiodd car yr heddlu ni ar frys gwyllt.

ble?

symud ymlaen

Roedd yn amlwg bod rhywbeth mawr wedi digwydd. Roedd y ffordd yn droellog iawn, felly gyrrodd Dad ymlaen yn araf ac yn ofalus. Cyn bo hir, roedden ni'n gallu gweld bod y ffordd ar gau o'n blaenau. Doedden ni ddim yn gallu symud!

amser gorffennol → Eisteddon ni yn y car am ddwy awr heb symud modfedd. Am ddiflas!

O'r diwedd, agorodd yr heddlu'r ffordd ac roedd Dad yn gallu gyrru ymlaen. Pan aethon ni rownd y gornel nesaf, gwelon ni beth oedd wedi digwydd. Roedd car wyneb i waered yn y cae! Roedd e wedi mynd yn syth drwy'r clawdd achos roedd e'n gyrru'n rhy gyflym.

beth?

sut?

pam?

Erbyn hyn, roedd hi'n rhy hwyr i ni fynd i'r arddangosfa, ond doedd dim ots gan Marc a fi, achos aeth Dad â ni i'r sinema yn lle hynny.

**Darllen** model

↓

**Trafod a meddwl** am y cynnwys

↓

**Cynllunio**

↓

**Ysgrifennu** ar y cyd

↓

**Ysgrifennu** annibynnol

# Math o weithgareddau adeiladol …

- berfau
- gweithgareddau atalnodi
- cwestiynau
- trosi berfau i'r gorffennol
- trefnu digwyddaidau
- Ymarferion y person cyntaf a'r lluosog

**Darllen** model ✓

↓

**Trafod a meddwl** am y cynnwys ✓

↓

**Cynllunio**

↓

**Ysgrifennu** ar y cyd

↓

**Ysgrifennu** annibynnol

# Sgerbydau Sue Palmer




[Dwyn i gof - Sue Palmer]












# Cynllunio


Darllen model
Trafod a meddwl am y cynnwys
Cynllunio
Ysgrifennu ar y cyd
Ysgrifennu annibynnol


Download
cynllun dwyn i gof
digwyddiadau yn nhrefn amser
pryd?
ble?
beth sy'n digwydd ar y diwedd?
Cyflwyniad
Diweddglo
pwy?
pam oedd o bwys?
beth?
brawddeg dda i gloi
Ar ôl i chi wneud eich sgerbwd o'r llinell amser gallwch ei rannu'n baragraffau.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rwy'n dechrau dod yn ymwybodol o sut mae prif lythrennau ac atalnodau llawn yn pennu ffiniau brawddegau. | | | | |
| Rwy'n gallu rhannu syniadau a theimladau a mynegi'r hyn yr wyf yn ei hoffi ac nad wyf yn ei hoffi.<br><br>Rwy'n gallu disgrifio gwrthrychau a digwyddiadau, gan adeiladu ac ymestyn fy ngeirfa. | Rwy'n gallu esbonio gwybodaeth a rhannu syniadau, barn a theimladau gan ddefnyddio geirfa berthnasol. | Rwy'n gallu rhyngweithio gydag eraill, siarad ac ysgrifennu am fy meddyliau, teimladau a barn, gan ddangos empathi a pharch. | Rwy'n gallu rhannu fy meddyliau, teimladau a barn gydag eraill, gan ddefnyddio ystod o dechnegau at wahanol ddibenion gan ddangos empathi a pharch. | Rwy'n gallu cyfathrebu fy meddyliau, teimladau a barn mewn cyd-destunau heriol a dadleuol gan ddangos empathi a pharch. |
| Rwy'n dechrau deall gellir ysgrifennu at wahanol ddibenion a ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.<br><br>Rwy'n gallu cyfrannu at ysgrifennu ar y cyd ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion. | Rwy'n gallu siarad er mwyn cynllunio ysgrifennu at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.<br><br>Rwy'n gallu trefnu fy ngwaith ysgrifennu i ddilyn yn rhesymegol.<br><br>Rwy'n gallu ysgrifennu gan ddefnyddio geirfa sy'n gynyddol ddychmygus, amrywiol a manwl gywir. | Rwy'n gallu defnyddio iaith idiomatig gyfarwydd a chywair priodol wrth gyfathrebu. | Rwy'n gallu dewis iaith idiomatig a chywair priodol wrth gyfathrebu er mwyn cyfoethogi fy mynegiant. | Rwy'n gallu defnyddio iaith idiomatig soffistigedig a chywair priodol mewn ystod o gyd-destunau. |

# Cam Cynnydd 2

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Rwy'n gallu sillafu geiriau aml eu defnydd yn gywir.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am sain a phatrwm llythrennau i gefnogi fy sillafu. | Rwy'n gallu rhoi ymgais ar sillafu geiriau anoddach mewn ffordd resymol gan ddefnyddio ystod o strategaethau. | | |
| Rwy'n gallu cyfrannu at ysgrifennu ar y cyd ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion.<br><br>Rwy'n dechrau cyfathrebu gan ddefnyddio testun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo. | Rwy'n gallu siarad yn fy newis iaith er mwyn cynllunio ysgrifennu at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. | Rwy'n gallu cynllunio ac ysgrifennu at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.<br><br>Rwy'n gallu trefnu fy ngwaith ysgrifennu i ddilyn yn rhesymegol. | | |
| Rwy'n dechrau mynegi fy nheimladau. | Rwy'n gallu rhannu syniadau a mynegi barn a theimladau gan ddefnyddio geirfa berthnasol.<br><br>Rwy'n gallu disgrifio digwyddiadau, gan adeiladu ac ymestyn fy ngeirfa. | Rwy'n gallu rhyngweithio gydag eraill, siarad ac ysgrifennu am fy meddyliau, teimladau a barn, gan ddangos empathi a pharch. | Rwy'n gallu rhannu fy meddyliau, teimladau a barn gydag eraill, gan ddefnyddio ystod o dechnegau i wahanol ddibenion gan ddangos empathi a pharch. | Rwy'n gallu cyfathrebu fy meddyliau, teimladau a barn mewn cyd-destunau heriol a dadleuol gan ddangos empathi a pharch. |

# Esiampl o destun dwyn i gof

## Pa nodweddion sy'n gyffredin?

- Person 1af (fy/ein) neu 3ydd person (ef/hi/eu) — Os 1af, yna personol
- Amser gorffennol
- Penodol a disgrifiadol – yn aml yn dilyn arddull gwybodaeth neu esboniad
- Trefn gronolegol
- Paragraffau yn dechrau â brawddeg bynciol yn aml
- Iaith lafar
- Cysyllteiriau sy'n gysylltiedig ag amser: yna, pan, wedyn, yn y cyfamser, cyn, y diwrnod canlynol, erbyn

**Dyddiadur**

**Dydd Mercher, Tachwedd 21ain 1965**

Es i ddim i'r Ysgol heddiw gan fod Mam yn dweud bod eisiau i bob copa walltog ddangos eu gwrthwynebiad i'r cynlluniau gwallgof. Aethon ni, ar y bws cyntaf yn gynnar yn y bore'r holl ffordd i Lerpwl. Dyma'r tro cyntaf i fi fynd tu allan i Gymru! Teimlais yn gyffrous iawn wrth glywed pawb yn trafod a phregethu. Roedd Elwyn, fy ffrind ar y bws arall.

Cyrhaeddon ni strydoedd Lerpwl cyn cinio, a chefais faner i'w chario gyda'r geiriau Saesneg, 'Your homes are safe. Save ours.' Wrth i ni gerdded ar hyd strydoedd llydan y ddinas, roedd rhai o hen wragedd y lle yn ein gwylio gan weiddi a galw enwau arnom. Teimlais yn ofnus iawn. Daliais law fy mam yn dynn wrth i gannoedd ohonom gerdded yn araf a threfnus tuag at neuadd y ddinas. Doeddwn i erioed wedi gweld cymaint o bobl.

Ar ôl cyrraedd, dechreuodd pawb ganu emynau Cymraeg a safodd Gwynfor Evans (dyn pwysig yn ôl mam) o flaen y dorf a'n hannerch ni. Cynhyrfodd pawb, ac ar ôl iddo orffen, dechreuodd y cymeradwyo.

Wedyn, aeth dad a nifer o'r dynion i mewn i'r siambr wrth i ni aros tu allan yn yr oerfel. Dechreuais ddiflasu.

Ymhen hir a hwyr, daeth dynion y cwm allan, â'u pen yn eu plu. Synhwyrais fod rhywbeth o'i le, ond nid dyma'r amser i ofyn cwestiynau.

…ddiant:

Darllen a thrafod + Gweithgareddau llafar = Ysgrifennu

Datblygwyd gan Lisa Hearne a Mari Owen o sgerbydau Sue Palmer a Julia Strong© a 'Datblygu uwch sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm' (LlC Mawrth 2010)

# Ysgrifennu Testun Dwyn i Gof

Dwyn i Gof

- Es i ddim.....
- Teimlais ........................
- Roedd ......
- Dechreuais...
- Aethon ......
- Daliais.......
- Cyrhaeddon....
- Oherwydd bod ...........
- Ar ôl........
- Ar y pryd hynny ...............
- Y diwrnod canlynol ...........
- Ymhen hir a hwyr........
- Yn ystod y cyfnod hwnnw .....
- Yn y diwedd ............
- Wrth.......
- Wedyn.....

Y lein ddillad?

Wal Weithio?



# Defnyddio llun i ddatblygu sgiliau ysgrifennu …






dyddiadur

ymson

gwybodaeth / adroddiad ffeithiol

barddoniaeth

# Defnyddio llun i ddatblygu sgiliau ysgrifennu …



# Gweithgaredd cynhesu …

Beth sy'n digwydd yn y llun?

Ysgrifennwch frawddeg dda.




Pa ansoddeiriau sy'n addas i ddisgrifio'r llun?

Beth welwlch chi?

Rhestrwch yr enwau.

# Sut mae defnyddio’r gyfrol i ddatblygu sgiliau ysgrifennu?

## Ysgrifennu ffeithiol

- Adroddiad ffeithiol / Pamffled gwybodaeth
- Perswâd, e.e. Poster yn annog diogelwch
- Trafodaeth, e.e. A oes gormod o bobl yn cerdded yr Wyddfa?




## Ysgrifennu creadigol

- Cerdd
- Dyddiadur un o'r cymeriadau
- Ymson un o'r cymeriadau
- Disgrifiad o'r Wyddfa
- Llythyr personol
- Sgript rhwng y cymeriadau
- Stori
- Blog
- Tasg “Dwyn i Gof”

# Marcio ac adborth

| | |
|---|---|
| Beth ydy pwrpas y marcio? | • Cefnogi dysgu parhaus<br>• Gwella'r dysgu |
| Sut mae marcio?   | • Rhaid cysylltu'r marcio gydag amcanion y dasg<br>• Gellir cynnig sylwadau ar yr hyn sy'n dda a chynnig gwelliannau<br>• Gellir gofyn cwestiynau er mwyn annog dysgu parhaus |
| Pwy ddylai farcio'r dasg? | • Mae hyn yn ddibynnol ar y dasg – yr athro neu gyfoed |
| Pryd dylai'r dasg gael ei marcio? | • Yn y tymor byr – mor agos i'r amser gyflawnwyd y dasg (er mwyn cefnogi dysgu parhaus) |

# Rhoi adborth i ddysgwyr

Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod adborth ar ffurf graddau neu farciau yn cael effaith negyddol ar ddysgu. Fodd bynnag, bydd sylwadau yn ddefnyddiol dim ond os cânt eu defnyddio i lywio gwaith pellach neu'n 'cau'r bwlch dysgu', ac os yw'r athro yn sicrhau bod 'camau nesaf' blaenorol wedi cael eu cyflawni. **Ansawdd y ddeialog** yn hytrach na maint y ddeialog sy'n hanfodol wrth roi adborth ar waith ysgrifenedig a gwaith llafar. Mae rhoi sylwadau ysgrifenedig neu sylwadau llafar i ddysgwyr hefyd yn eu helpu i ganolbwyntio ar y materion dysgu yn hytrach na cheisio dehongli marc neu radd. **Er mwyn bod yn effeithiol, dylid rhoi adborth cyn gynted â phosibl, dylai fod yn glir a dylai wneud i'r dysgwr feddwl.**

Llywodraeth Cymru (2010) Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth.
Ar gael ar:https://hwb.gov.wales/api/storage/283b9318-dcf7-402d-b39a-67dee70efe18/sut-i-ddatblygu-meddwl-ac-asesu-ar-gyfer-dysgu-yn-yr-ystafell-ddosbarth.pdf

# Cyn, yn ystod ac ar ôl y wers, bydd athro da yn ystyried sut mae/aeth pethau …

- Beth ddysgodd y disgyblion heddiw?
- Sut ymateb gawsoch chi gan y disgyblion?
- Sut oeddwn i'n gwybod bod y disgyblion wedi deall ac wedi dysgu?
- Beth roedd fy rôl i yn y wers?
- Beth roedd rôl y cynorthwyydd dosbarth?
- Oedd fy newis o ddull(iau) addysgu yr un / y rhai mwyaf effeithiol ar gyfer y wers hon?
- Beth byddwn i'n newid?
- Beth sy'n mynd i ddigwydd yn y wers / y gwersi nesaf?

There is an emphasis on planning, being clear about the purposes and out-comes of lessons (both by teachers and students), having expectations or targets of what the impact should be, and **then continually evaluating the impact** of the teacher on the learner.

John Hattie (Tud. 39, *Visible Learning for Teachers*)

# Llyfrau a dogfennau y cyfeiriwyd atynt yn ystod y ddarlith …



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

APLP
PDPA
Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

Trawsnewid Addysg,
Trawsnewid Bywydau

Transforming Education,
Transforming Lives

www.uwtsd.ac.uk

